


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mehefin 14 2022

Presennol :- Cynghorwyr :- Llinos Murphy, Selwyn Griffiths, Aled Griffith, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Carol Hayes, Gwilym Jones, Marian Roberts (Clerc)
Cyng. June Jones (aelod o'r cyhoedd)

35.6.22. Ymddiheuriadau
Cyng Alwyn Gruffydd

36.6.22. Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng Selwyn Griffiths am ei hysbysu am lwyddiannau rhai o drigolion Porthmadog dros yr wythnosau diwethaf. Roedd am longyfarch Keith Roberts ac Emma Quaeck am dderbyn tystysgrif gan Mantell Gwynedd am eu gwaith gwirfoddol ; Medi Harris o Borth y Gest am gael ei dewis yn aelod o dîm nofio Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Birmingham y mis nesaf; a Dr Erica Roberts, Maes Gerddi gynt, am dderbyn gwobr am Wasanaeth Eithriadol gan Gymdeithas Frenhinol Cemeg.

Roedd yn llongyfarch Clwb Peldroed Porthmadog am berfformiad rhagorol a chyson drwy'r tymor – wedi ennill gêm ail gyfle o 5 gôl i 0 – ac wedi cael dyrchafiad haeddiannol.

Roedd hefyd am longyfarch tîm Peldroed Cenedlaethol Cymru am ennill eu lle yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd yn Qatar ym mis Tachwedd eleni.

Roedd yn edrych ymlaen i Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023 a gynhelir ym Mhorthmadog ar 25.6.22. Cynhaliwyd cyngerdd penigamp gan ddisgybion Ysgol Eifionydd, Ysgol Eifion Wyn ac Ysgol y Gorlan dros y penwythnos fel rhan o ymgyrch codi arian Porthmadog ar gyfer yr Eisteddfod a braf oedd cael canmol talentau plant y fro.

Roedd yn diolch yn fawr i Reolwr a staff Premier Inn, Porthmadog am wahodd aelodau o'r Cyngor Tref a'u teuluoedd i frecwest croeso yno ar Fehefin y 3ydd ac roedd yn dymuno pob llwyddiant iddynt ar eu haf cyntaf ym Mhorthmadog. Dywedodd fod y prysurdeb ymwelwyr eisoes wedi dechrau ond fod ychydig o wythnosau ar ôl o hyd cyn bydd y torfeydd mawr yn cyrraedd yr ardal.

**37.6.22. Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-
Cyfarfod Blynyddol Mai 10 2022**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Mai 10 2022

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

38.6.22. Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.
Dim datganiad o ddiddordeb.

Materion i'w dwyn gerbron :-

39.6.22 Cyfethol Aelodau Newydd – Gweler Gohebiaeth 5,12,15,17

Penderfynwyd yn unfrydol i gyfethol Sandra Bodden Jones i Ward Tremadog; Dr Melfyn Edwards i Ward Gest; Keith Roberts i Ward Ynys Galch a Michael Roberts i Ward Orllewinol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

40.6.22 Cyng Alwyn Gruffydd :- Cynnig gweithredu i ddatrys yr anniddigrwydd ynglyn â'r ddarpariaeth feddygol yn ardal Porthmadog.

Yn absenoldeb Cyng Alwyn Gruffydd penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

41.6.22 Cyng Gwilym Jones :- Cynnig gweithredu i symud mainc goffa Glenda Burke o'i safle presennol i leoliad mwy agored a heulog o'r parc.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

42.6.22 Cyng Aled Griffith :- Cynnig ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt ystyried ymestyn 30m.y.a heibio mynedfa Premier Inn/mynedfa llwybr beicio dros y Cob a newid cyflymder y Cob i 40m.y.a.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

43.6.22 Cyng Llinos Murphy :- Cynnig ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt chwynu Stryd Fawr Porthmadog yn dilyn derbyn cwynion gan aelod o'r cyhoedd.(gweler Gohebiaeth 8,9, a 13)

Penderfynwyd :- derbyn gwelliant Cyng Selwyn Griffiths i ofyn i Gyngor Gwynedd i yrru timau lleol i gael gwared o'r chwyn wrth eu tynnu o'r gwraidd yn hytrach na'u chwistrellu efo chwynladdwr.

44.6.22 Cyng Llinos Murphy :- Cynnig gyrru llythyr i BT i wrthwynebu lleoliad y postyn newydd ar y Stryd Fawr a gwneud cais i'w symud i leoliad arall ar y Stryd Fawr.(Gweler Gohebiaeth 6 a 7)

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Llinos Murphy gan holi hefyd am fwy o wybodaeth ynglyn â'r polyn ac i basio cwynion y cyhoedd ymlaen at BT, Cyng Aled Griffith yn eilio.

45.6.22 Cyng Gwilym Jones:- Cynnig ysgrifennu at y Gwasanaeth Morwrol i holi pam fod traeth Morfa Bychan wedi colli'r Faner Las a sut maent am weithredu i gael y Faner Las yn ôl i draeth Morfa Bychan.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.

46.6.22 Cyng Llinos Murphy :- Cynnig ysgrifennu at Adran Strydoedd Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt ddad-flocio draeniau ar hyd y palmant o flaen Siop Eifionydd a Siop Fawr. (Gweler Gohebiaeth11)

Nodwyd fod y draeniau yma yn achosi arogl drwg ar y stryd a bod y draeniau yn debygol o achosi llifogydd am nad ydynt yn cael eu gwagio.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Llinos Murphy, Cyng Aled Griffith yn eilio.

47.6.22 Cyng Llinos Murphy :- Cynnig i aelodau'r Cyngor Tref gynnal "syrjeri" am un awr bob mis er mwyn i'r cyhoedd gael dod i adrodd cwynion neu bryderon.

Wedi trafod manteision ac anfanteision y cynnig cytunwyd fod pob Cynghorydd yn gyfrifol am ei Ward ei hun ac na fyddai ymddangosiad un Cynghorydd mewn "syrjeri" o'r fath yn gallu cynrychioli'r Cyngor fel Corff. Roedd Cyng Llinos Murphy yn dymuno tynnu ei chynnig yn ôl.

Penderfynwyd :- codi ymwybyddiaeth trigolion Porthmadog a'r ardal o'u Cynghorwyr lleol drwy osod y wybodaeth yn yr Wylan ac ar hysbysfyrdau'r Cyngor Tref. Mae'r wybodaeth ar gael eisoes ar

wefan y Cyngor Tref.

48.6.22 Cyng Carol Hayes :- cynnig ein bod yn gofyn i'r Adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i gysylltu gyda Mrs Heulwen Rowlands, Stryd Madog, parthed y mater o'u defnydd o chwynladdwr ym mynwent Porthmadog yn ystod misoedd y gwanwyn pan mae'r blodau gwylltion yn eu hanterth.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Aled Griffith yn eilio.

49.6.22. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Gorffennaf 12 2022 = Gorffennaf 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)

- **Cyng Alwyn Gruffydd :-** Cynnig gweithredu i ddatrys yr anniddigrwydd ynglyn â'r ddarpariaeth feddygol yn ardal Porthmadog.
- **Cyng Aled Griffith :-** Cynnig ysgrifennu at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i wneud cais am berson i ysgubo'r lôn i lanhau strydoedd Porthmadog a Thremadog yn ddyddiol.

50.6.22. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Tynnodd Cyng Selwyn Griffiths sylw'r Cynghorwyr at y ffaith nad oedd Steffan Jones byth wedi ymateb i'r cais i osod tybiau blodau ar strydoedd Porthmadog a Thremadog a bod hyn yn llesteirio cynlluniau'r Gweithgor Datblygu gan fod prisiau'r tybiau wedi codi yn sylweddol ers gyrru'r cais ar 15.3.22.

Penderfynwyd :-gyrru copi o'r ddogfen bresennol o Rhestr Aros am Ateb at Iwan Evans a Dafydd Gibbard i ddangos difrifoldeb y broblem ac i ddatgan anniddigrwydd ynglyn â'r sefyllfa.

GOHEBIAETH :

51.6.22 IWAN AP TREFOR C.G., Arwyddbyst tref Porthmadog

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth.

52.6.22 UN LLAIS CYMRU, Cadwch Gymru'n Daclus

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a chysylltu'r ddogfen gyda mater 54.6.22 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

53.6.22 ELUNED MORGAN, Ymateb i 341.4.22 diffyg Deintyddion Porthmadog

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a chytuno i gynnwys yr ohebiaeth eto yng nghyfarfod mis Gorffennaf er mwyn trafod ymhellach gyda chynnig Cyng Alwyn Gruffydd 40.6.22.

54.6.22 HYWYN WILLIAMS C.G., Adroddiad o'r cyfarfod safle Cae Chwarae Bodawen 24.5.22

Cytunwyd fod y cynllun yn un gwerth i'w wneud ac y dylid parhau i dderbyn mwy o wybodaeth ynglyn ag ariannu cynllun o'r fath a dylid gwario rhywfaint o arian wrth-gefn y Cyngor er lles amgylchedd yr ardal leol. Nododd y Clerc bod mwy o wybodaeth ynglyn â grantiau ar gyfer y cynllun yma yng ngohebiaeth mis Gorffennaf. Cytunwyd bod angen arweiniad ar gyfer dylunio safle o'r math yma gan nad oedd gan y Cyngor Tref yr arbenigedd perthnasol ar ei gyfer.

55.6.22 SANDRA BODDEN JONES, Llythyr cais am sedd wag Tremadog

Trafodwyd eisoes yn 39.6.22 uchod.

56.6.22 LLUN, Polyn Bt Gweler Cofnod 40.6.22

57.6.22 LLUN, Y llythyr ar y plyn BT Gweler Cofnod 40.6.22
58.6.22 LLUN, Chwyn ar y strydoedd 1 Gweler cofnod 43.6.22
59.6.22 LLUN, Chwyn ar y strydoedd 2 Gweler cofnod 43.6.22

60.6.22 CYNGOR GWYNEDD, Ymgynghoriad teithio llesol

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a'r Cynghorwyr i ymateb yn unigol i'r holiadur ar y linc yn y ddogfen yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

61.6.22 LLUN, Draeniau wedi blocio ar hyd stryd Siop Eifionydd Gweler cofnod 46.6.22

62.6.22 , DR MELFYN EDWARDS, Cais am sedd wag Ward Gorllewinol

Trafodwyd eisoes yn 39.6.22 uchod.

63.6.22 GARETH ROBERTS C.G., Ymateb i adroddiad am chwyn gan y Clerc ar 'Adrodd Cŵyn' ar Wefan Cyngor Gwynedd.

Trafodwyd eisoes yn 43.6.22 uchod.

64.6.22 LESLEY ROGERS, Ymateb i lythyr rhybudd ynglyn â plot 42 Cae Pawb

Cafwyd adroddiad gan y Clerc fod y mater wedi ei ddatrys a bod Lesley Rogers yn dymuno tynnu ei llythyr yn ôl.

65.6.22 KEITH ROBERTS, Cais am Sedd Wag

Trafodwyd eisoes yn 39.6.22 uchod.

66.6.22 JOE PATTON, Wicklow

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a phasio'r llythyr ymlaen i'r Cynghorwyr Bethan Rees Jones ac Alwyn Gruffydd, swyddogion y Cyngor Efeillio yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio

67.6.22 MICHAEL ROBERTS, Cais am Sedd Wag

Trafodwyd eisoes yn 39.6.22 uchod.

68.6.22 Materion Ariannol :

Penderfynwyd:- y byddai'r Clerc yn cysylltu'n uniongyrchol gyda Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd i holi ble mae'r taliad Incwm Meysydd Parcio sy'n ddyledus ers 2021 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

Derbyniadau :

CAE PAWB	Rhent 2022-2023	£	217.50
HSBC	Llog Banc Ebrill / Mai 2022	£	1.39

Biliau i'w talu :-

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Mai 2022	£	52.06
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Mai 2022	£	650.62

3	Marian Roberts	Inc du a lliw i'r printer	£ 31.95
4	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Mai 2022	£ 162.66
5	Un Llais Cymru	Cwrs Sgiliau Cadeiryddio Llywelyn Rhys 11.4.22	£ 35.00
6	Y Ganolfan	Cyfarfod Mai 10 2022	£ 40.00
7	Gardencraft	Blodau i'r tybiau ar y Stryd Fawr	£ 120.00
8	Xerox Finance	Rhent llungopiwr 1/7/22 i 30/9/22	£ 104.40
9	Yr Wylan	Hysbyseb Cyfethol Mai 2022	£ 16.00
10	Cyfoeth Naturiol Cymru	Draenio blynyddol Cae Pawb	£ 5.56
11	Llywelyn Rhys	Lwfans Cadeirydd 2022-2023 (gweler 332.4.22)	£ 1,200.00
12	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm Lwfans Cadeirydd 2022-2023	£ 300.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

69.6.22 Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais : C22/0493/44/LL (wedi ebostio 1.6.22)

Lleoliad: Marchington House, Ffordd Penamser, Porthmadog, LL49 9NY

Bwriad : Newid defnydd tŷ i dŷ aml feddianaeth ar gyfer gweithwyr

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(b) Rhif Cais C22/0504/44/LL (wedi ebostio 6.6.22)

Lleoliad : Pet & Aquatic Centre, Pet & Aquatic Centre, 41 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LR

Bwriad : Newid defnydd rhan o siop i ffurfio ardal trin cwn

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(c) Rhif Cais : C22/0506/44/DT (wedi ebostio 6.6.22) Gweler Cofnodion 8.3.22 - Cais gwreiddiol Tachwedd 2021

Lleoliad: Tŷ Clyd Heol Merswy, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UF

Bwriad : Estyniad ac addasiadau (ailgyflwyniad)

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

Atodiad i Adroddiad y Cadeirydd

Roedd y Cadeirydd yn dymuno llongyfarch a diolch yn fawr i'r Clerc am ei gwaith yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2021-2022. Roedd am i'r Cyngor Tref ei gymeradwyo yn swyddogol a chafwyd pleidlais unfrydol yn ei gymeradwyo. Bydd copi ohono ar gael ar wefan y Cyngor Tref a phenderfynwyd rhoi copi papur ohono yn Llyfrgell Porthmadog er budd y cyhoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.40.

Marian Roberts

(Clerc)

16.6.22

